WILLIAMS, JOHN (1768 - 1825), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghymru ac U.D.A.;

Enw: John Williams
Dyddiad geni: 1768
Dyddiad marw: 1825
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd 8 Mawrth 1768 yn Plas Llecheiddior, gerllaw Dolbenmaen, Sir Gaernarfon. Symudodd yn ifanc i Rhwng-y-ddwyryd, Dolbenmaen. Dygwyd ef i fyny yn Eglwys Loegr, eithr gwrthododd dderbyn cynnig ei deulu i roddi cwrs o addysg glasurol iddo a dewis yn hytrach fyned i fasnach yng Nghaernarfon. Argyhoeddwyd ef o dan bregeth gan David Morris, Twrgwyn, pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Yn 1787 ymunodd ag eglwys Annibynnol a oedd a dan ofal y Dr. George Lewis, a'i hanogodd i ddechrau pregethu. Yn 1791, fodd bynnag, cymerodd fedydd trwy drochi a daeth yn aelod o Horeb, eglwys y Bedyddwyr yn Garn Dolbenmaen; yn fuan wedi hynny daeth yn weinidog yr eglwys honno. Teithiodd lawer trwy Gymru a daeth yn gyfaill personol i Christmas Evans. O dan anesmwythyd a achosid gan y chwyldro yn Ffrainc ymfudodd gydag amryw eraill i U.D.A. Glaniodd yn New York 25 Gorffennaf 1795, ac er na fedrai fawr o Saesneg pan laniodd fe'i dewiswyd yn weinidog ar eglwys Saesneg yn Oliver Street yn y ddinas honno yn Awst 1798 a pharhaodd i weinidogaethu yn yr eglwys hyd ei farwolaeth, 22 Mai 1825.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Sketch of the Reverend John Williams (1850), 1850

D. Williams, *Cofiant J. R. Jones, Ramoth yn cynnwys casgliad helaeth o'i lythyrau* (Caerfyrddin 1913), 192-203

[*Y Cymmrodor*, xlv, 139, 153]

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 277452313

Wikidata: Q20821183

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, R. (., (1953). WILLIAMS, JOHN (1768 - 1825), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghymru ac U.D.A.;. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-JOH-1768

Copïo'r cliptrwdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government